

## Adran 1

# Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae tai a busnesau yn dibynnu mwy ar fand eang nawr nag erioed o'r blaen. Felly, pan mae pethau'n mynd o chwith, mae hynny nid yn unig yn anghyfleus ac yn achosi rhwystredigaeth, mae hefyd yn gallu achosi niwed ariannol ac anariannol gwirioneddol.
- 1.2 Dangosodd Adolygiad Strategol o Gyfathrebu Digidol y llynedd ("Adolygiad Strategol") bod angen gwneud gwelliannau fel mater o frys i sicrhau bod pob cwmni ffôn a band eang yn rhoi gwasanaeth o'r safon y mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl. Rydym wedi nodi ein strategaeth i greu newid sylweddol o ran safon gwasanaeth, gan gynnwys cynlluniau i gyflwyno gwybodaeth dryloyw am safon y gwasanaeth ac iawndal awtomatig i gwsmeriaid pan mae pethau'n mynd o chwith.
- 1.3 Elfen allweddol o'r strategaeth honno yw gosod gofynion mwy llym ar Openreach, yr adran yn BT sy'n gosod ac yn cynnal a chadw cysylltiadau i rwydwaith BT ar ran darparwyr gwasanaethau telegyfathrebu, i gywiro diffygion a gosod cysylltiadau yn brydlon. Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych yn fanwl ar y safonau Ansawdd Gwasanaeth arfaethedig a fydd yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar fesurau a gyflwynwyd gan Ofcom yn 2014.
- 1.4 Mae'r cynigion yn rhan o ddau adolygiad ffurfiol rydym yn eu cynnal ar hyn o bryd, sef yr adolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol (WLA) a'r adolygiad o'r Farchnad Band Cul (NMR). Yn yr adolygiadau hynny, rydym wedi nodi pryder bod grym marchnadol BT yn golygu nad oes ganddo ddigon o gymelliadau i roi gwasanaeth sy'n cadw'n wastad â galwadau cynyddol darparwyr gwasanaethau telegyfathrebu a'u cwsmeriaid. Nod ein cynigion yw cymell Openreach i wella ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu darparu i ddarparwyr gwasanaethau telegyfathrebu yn sylweddol er mwyn sicrhau cystadleuaeth effeithiol sy'n diwallu anghenion defnyddwyr a busnesau.
- 1.5 Bydd unrhyw benderfyniadau terfynol rydym yn eu gwneud ynghylch ansawdd gwasanaeth yn rhan o'r pecyn unioni cyffredinol a gaiff ei gynnwys yn ein Datganiadau terfynol ar yr Adolygiad o Fynediad Lleol Cyfanwerthol a'r Adolygiad o'r Farchnad Band Cul rydym yn disgwyl eu cwblhau erbyn dechrau 2018.

## Cefndir

- 1.6 Mae defnyddwyr a busnesau yn dibynnu fwy a mwy ar y rhyngwyd ac maent bellach yn ystyried band eang yn rhan hanfodol o'u bywydau bob dydd. Mae ein hymchwil yn dangos y byddai 66% o ddefnyddwyr a 59% o fusnesau bach a chanolig yn ei chael yn anodd heb fand eang a dim ond am gyfnod cyfyngedig y byddai 23% a 25% arall yn gallu ymdopi hebdo.<sup>1</sup>

---


<sup>1</sup> Ymchwil Jigsaw, 2017. *Iawndal Awtomatig: Profiad y Defnyddiwr o oedi cyn darparu, colli gwasanaeth a methu apwyntiadau: Cyflwyno'r canfyddiadau meintiol*, Sleidiau 16 & 72 [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0026/98711/automatic-compensation-jigsaw-report.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0026/98711/automatic-compensation-jigsaw-report.pdf).

- 1.7 Mae llinellau sydd ddim yn gweithio'n iawn ac oedi wrth osod a thrwsio nid yn unig yn effeithio ar gwsmeriaid, mae hefyd yn gallu amharu ar y gystadleuaeth yn y farchnad ehangach drwy annog pobl i beidio â newid darparwr, ymysg pethau eraill.
- 1.8 Mae sawl categori o broblemau â gwasanaethau. Maent yn gallu digwydd yn y gyfnewidfa ffôn ar y llinellau sy'n cysylltu tai a busnesau, neu gallant ddigwydd oherwydd ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth Openreach, er enghraifft, oherwydd bod offer y cwsmer ddim yn gweithio'n iawn, y gwifrau yn y cartref, gwasanaeth gwael i gwsmeriaid ac ati.

**Ffigur 1.1**

## Pam nad ydy'r wefan hon yn gweithio?

Mannau lle gallai'r diffyg fod



Mae **Openreach** yn cywiro diffygion ar y wifren, a rhai problemau yn y gyfnewidfa

Mae darparwyr eraill yn trwsio llwybrydd y Wi-Fi a rhai problemau eraill yn y gyfnewidfa ac ar eu rhwydwaith eu hunain.

- 1.9 Felly, mae gan y sector cyfan - nid Openreach yn unig - ran i'w chwarae o ran sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth sydd gryn dipyn yn well na'r gwasanaeth y mae'n ei gynnig ar hyn o bryd.
- 1.10 Amlygwyd hyn gan ein Hadolygiad Strategol ac ynddo nodwyd cynigion i gymell yr holl ddiwydiant i gyflwyno gwelliannau go iawn. Mae'r rhain yn cynnwys:
- cyhoeddi tablau perfformiad ar ansawdd y gwasanaeth, enwi'r darparwyr gorau a'r darparwyr gwaethaf ar sail ystod o fesurau perfformiad er mwyn i gwsmeriaid allu bod yn ffyddiog wrth ystyried a dewis gwasanaethau. Byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad blynyddol cyntaf ar Ansawdd y Gwasanaeth cyn bo hir;
  - cyflwyno iawndal awtomatig ar gyfer defnyddwyr y mae ansawdd gwasanaeth gwael wedi effeithio arnynt. Rydym wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n gofyn am sylwadau gan randdeiliaid erbyn 5ed Mehefin 2017 ac rydym yn bwriadu cyhoeddi'r penderfyniad tua diwedd y flwyddyn;
  - pennu safonau ansawdd gwasanaeth llymach ar gyfer Openreach a'u sefydlu mewn meysydd gwahanol, fel sy'n briodol;

- pennu rheolaethau ar brisiau cyfanwerthol sy'n atgyfnerthu cymelliadau Openreach i fuddsoddi yn y tymor hir yn ansawdd gwasanaethau;
  - gweithio gyda'r diwydiant lle mae cydlynu gwael yn effeithio ar ansawdd y gwasanaeth.
- 1.11 Tan yn gymharol ddiweddar, roeddem wedi disgwyl y byddai'r gofyniad ar Openreach i ddarparu gwasanaeth o'r un ansawdd i bob darparwr gwasanaethau telegyfathrebu wedi ei gymell i berfformio i safon dda.
- 1.12 Er y byddai'n well gennym pe bai Openreach ei hun wedi darparu gwasanaethau o ansawdd uchel oherwydd ei fod ef ei hun yn canolbwyntio ar anghenion y cwsmer, rydym yn gorfod camu i mewn oherwydd nad yw'r canlyniadau o ran gwasanaeth yn ddigon i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau telegyfathrebu yn gallu cystadlu'n effeithiol yn y farchnad adwerthu a sicrhau nad yw cwsmeriaid yn dioddef. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi ein barn ddiweddaraf yng nghyswllt y maes hwn. Mae'r safonau rydym yn eu cynnig yn pennu llinell sylfaen isaf ac rydym yn disgwyl y bydd BT nid yn unig yn cyrraedd y safonau hynny, ond yn anelu at fynd y tu hwnt iddynt.
- 1.13 Er mwyn cymell perfformiad gwell fyth gan Openreach o ran gwasanaeth ac er mwyn helpu i sicrhau newid go iawn mewn ansawdd, byddwn hefyd yn gwneud y canlynol:
- anelu at gryfhau'r gystadleuaeth i Openreach, e.e. mynediad i bolion a phibellau (DPA);
  - sicrhau bod cystadlu yn y farchnad fanwerthu yn canolbwyntio ar ansawdd gwasanaethau, yn ogystal ag ar bris, drwy sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o ansawdd y gwasanaeth y mae darparwyr gwahanol yn ei gynnig
- 1.14 Rydym yn credu mai cystadleuaeth o'r fath, os yw'n effeithiol, yw'r ffordd orau i ysgogi newid drwy'r holl sector telegyfathrebu.

## Yr angen am safonau llymach

- 1.15 Yn 2014 gwnaethom gyflwyno safonau ansawdd gwasanaeth oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Openreach gyflawni gwaith gosod a thrwsio ffonau a band eang yn gynt. Bwriad y rheolau hyn (y cyntaf o'u bath i gael eu gosod ar BT) oedd mynd i'r afael â lefel perfformiad a oedd yn amlwg yn annerbyniol ac adfer y perfformiad hwnnw i'w lefel flaenorol. Os bydd Openreach yn torri'r rheolau hyn, mae'r pwerau gennym i roi cosbau ariannol sylweddol o hyd at 10% o drosiant perthnasol BT.
- 1.16 Mae'r rhain wedi ysgogi lefelau gwasanaeth gwell gan Openreach ond mae nifer o resymau pam fod angen cymryd camau pellach erbyn hyn:
- Mae disgwyliadau cwsmeriaid yn newid. Rydym nawr yn disgwyl mwy gan ein gwasanaethau cyfathrebu - gan gynnwys gwasanaeth o ansawdd gwell - ac ni fydd hyn ond yn cynyddu yn y dyfodol.
  - Yn ogystal nid yw perfformiad Openreach ond wedi gwella gymaint ag yr oedd yn rhaid iddo i gwrdd â'r gofynion sylfaenol yng nghyswllt gwaith trwsio ac mae'r corff ei hun wedi cydnabod bod angen iddo wella o ran gwasanaeth.
  - Mae gwariant cyfalaf Openreach wedi bod yn is nag yr oeddem wedi'i ragweld dros y blynyddoedd diwethaf. Er nad yw hyn wedi arwain at fwy o ddiffygion hyd

yma, gallai parhau i fuddsoddi rhy ychydig achosi canlyniadau difrifol iawn, gan gynnwys colli gwasanaeth yn amlach yn y dyfodol. Er bod ymrwymadau diweddar Openreach i fuddsoddi yn iechyd ei rwydwaith yn galonogol, mae perygl o hyd y bydd blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn cyfyngu ar y cynlluniau hyn. Rydym yn credu y bydd safonau ansawdd gwasanaeth llymach yn cymhell Openreach i fuddsoddi yn ei rwydwaith.

- Mae'r safonau ansawdd gwasanaeth cyfredol yn golygu nad ydy tua 20% o'r gwaith trwsio yn cael ei gwblhau o fewn un neu ddau ddiwrnod gwaith, ac mae defnyddwyr yn gorfod aros am fwy na pum niwrnod cyn y caiff eu problemau eu datrys yng nghyswllt dros 5% o achosion.
- Nid yw'r safonau chwaith yn berthnasol i fand eang cyflym iawn Ffibr i'r cabinet (FTTC). Wrth i fwy o bobl fanteisio ar fand eang cyflym iawn, pe bai Openreach yn wynebu heriau gweithredol mae perygl y byddai'n canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae targedau wedi'u pennu eisoes ar draul cwsmeriaid band eang cyflym iawn.

## Trosolwg o'n cynigion

- 1.17 Mae crynodeb o'n cynigion isod: Ein nod yw cymhell Openreach i wella ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu darparu i ddarparwyr gwasanaethau telegyfathrebu, a thrwyddyn nhw, i gwsmeriaid llais a band eang, a sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y manteision o ran cystadlu a defnyddwyr a chostau a chyfyngiadau gweithredol Openreach ar yr un pryd.

## Dull gweithredu o ran lleihau diffygion

- 1.18 Byddai gwella dibynadwyedd rhwydwaith Openreach yn fanteisiol i ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau telegyfathrebu fel ei gilydd.
- 1.19 Yn ein gwaith ar Newid Rhwng Platfformau gwnaethom amcangyfrif bod y niwed oedd yn cael ei achosi pan nad oedd gwasanaeth yn gweithio - ynghyd â'r strach o drefnu i gywiro'r diffyg - yn costio tua £83 bob tro roedd yn digwydd.<sup>2</sup>
- 1.20 Rydym yn credu y bydd ein cynnig i bennu safonau trwsio llymach, fel sydd wedi'i nodi isod, yn gymhellant cryf i Openreach fynd i'r afael â pha mor ddibynadwy yw ei rwydwaith drwy gynyddu ei wariant cyfalaf yn y maes hwn. Rhwng 2014/15 a 2015/16 nid oedd Openreach wedi defnyddio'r holl wariant cyfalaf roeddem wedi'i ganiatáu yn y taliadau rheoledig roeddem wedi'u pennu ar gyfer y farchnad hon, gan ddewis mynd i gostau uwch yng nghyswllt gwariant gweithredol yn lle hynny. Yn ein barn ni, nid yw'r strategaeth hon yn gynaliadwy yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Gallai arwain at gryn ostyngiad yn y rhwydwaith a niwed i'r defnyddiwr.
- 1.21 Rydym yn croesawu'r cynllun y mae Openreach wedi'i gyhoeddi yn ddiweddar i fuddsoddi yn iechyd ei rwydwaith, ond nid ydym yn bwriadu caniatáu dim mwy o wariant cyfalaf ychwanegol yn yr adolygiad hwn at ddibenion y rhaglen fuddsoddi hon y tu hwnt i'r hyn rydym ni'n ei ystyried yn briodol i gynnal a chadw rhwydwaith effeithlon sy'n darparu gwasanaeth o ansawdd da.

---

<sup>2</sup> Ofcom, 2016 *Gwneud Newid yn Haws ac yn fwy Dibynadwy i Ddefnyddwyr*.  
[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0030/58845/making-switching-easier.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0030/58845/making-switching-easier.pdf).

- 1.22 Mae cyfraddau diffyg hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o osod rheolaethau prisiau cyfanwerthol. Mae'r rheolaethau hyn yn rhoi cyfle i BT adfer y gost o weithredu ei rwydwaith mewn ffordd effeithlon. Rydym yn cynnig na ddylai BT ond cael caniatâd i adfer costau cynnal a chadw sy'n gyson â'r targed diffygion y mae wedi'i bennu iddo'i hun.
- 1.23 Ceir trafodaeth lawnach ynghylch sut mae'r gyfradd ddiffygion a ragwelir yn rhyngweithio â'r rheolaethau pris arfaethedig yn ein hymgyngoriad ar yr Adolygiad o'r Farchnad WLA ar gyfer 2017 sydd hefyd wedi'i gyhoeddi heddiw.<sup>3</sup>

### Safonau ansawdd rhwymol ar gyfer cywiro diffygion

- 1.24 Mae darparwyr band eang a ffôn yn dewis lefel gwasanaeth sy'n diffinio pa mor gyflym y mae Openreach yn ymrwmo i gywiro diffygion (un neu ddau ddiwrnod gwaith ar ôl cael gwybod amdanynt yn y mwyafrif o achosion).
- 1.25 O dan ein cynigion newydd, o 2021 ymlaen bydd yn rhaid i Openreach gyflawni 93% o'r gwaith o gywiro diffygion o fewn un neu ddau ddiwrnod gwaith, yn dibynnu ar y lefel gwasanaeth y mae'r darparwr gwasanaethau telegyfathrebu yn ei dewis. Mae hyn yn fwy na'r gofyniad presennol, sef 80%, a bennwyd pan oedd Openreach yn perfformio ar lefel lawer yn is.
- 1.26 Yn ogystal, rydym yn cynnig safon ansawdd eilaidd i ddiogelu cwsmeriaid sydd oddi allan i'r 93%. Disgwylir i Openreach gyflawni 97% o'r gwaith trwsio o fewn chwech neu saith niwrnod gwaith ar yr hwyr, yn dibynnu ar lefel y gwasanaeth.

**Tabl 1.2: Safonau ansawdd rhwymol ar gyfer trwsio (WLR, MPF a GEA-FTTC<sup>4</sup>)**

	Safon gyfredol	Safon newydd arfaethedig
	Tach 2016 – Mawrth 2018	Blwyddyn 3 (2020/21)
% y gwaith trwsio sydd i'w gwblhau o fewn 1 neu 2 ddiwrnod gwaith, yn dibynnu ar Lefel y Gwasanaeth (Safon wedi'i haddasu ar gyfer <i>force majeure</i> )	80% (77%)	93% (90%)
% y gwaith trwsio sydd i'w gwblhau o fewn amserlenni y Lefel Gwasanaeth + 5 diwrnod gwaith (ar gyfer pob 1 neu 2 ddiwrnod gwaith y Lefel Gwasanaeth (Safon wedi'i haddasu ar gyfer <i>force majeure</i> ))	amh	97% (94%)

<sup>3</sup> Ofcom, 2017. *Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol*. <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/wholesale-local-access-market-review>.

<sup>4</sup> Cynnyrch cyfanwerthol BT sy'n rhoi mynediad at rwydwaith FTTC ac FTTP BT i ddarparwyr gwasanaethau telegyfathrebu er mwyn cyflenwi gwasanaethau band eang cyflymach yw Mynediad Ether-rwyd Cyffredinol Ffibr i'r Cabinet BT, neu GEA-FTTC. Ar hyn o bryd, mae BT yn cyflawni ei rwymedigaeth i ddarparu VULA drwy ddefnyddio gwasanaethau GEA.

- 1.27 Rydym yn cynnig bod y safonau ansawdd hyn ar gyfer cywiro diffygion yn berthnasol i'r holl brif wasanaethau band eang a ffôn sy'n cael eu defnyddio mewn cartrefi a busnesau, gan gynnwys band eang Ffibr i'r Cabinet (FTTC) cyflym iawn.
- 1.28 Asesir cydymffurfiad â'r safonau trwsio hyn drwy fesur perfformiad cyfun llinellau band eang a llais cyfanwerthol. Bydd hefyd yn cael ei asesu ar sail ranbarthol er mwyn atal unrhyw ogwydd daearyddol. Rydym hefyd wedi ystyried llwybr disgyn priodol i Openreach er mwyn iddo gyrraedd y safonau Ansawdd Gwasanaeth ar gyfer gwaith trwsio (gweler Adran 5).

### Safonau ansawdd rhwymol ar gyfer gwaith gosod

- 1.29 Erbyn 2021 dylai bod cysylltiadau yn cael eu gosod ar y dyddiad a gytunwyd rhwng Openreach a'r darparwr gwasanaethau telegyfathrebu yng nghyswllt 95% o achosion (90% ar hyn o bryd).

**Tabl 1.3: Safonau ansawdd rhwymol ar gyfer sicrwydd dyddiad gosod (WLR, MPF a GEA-FTTC)**

	Safon gyfredol	Safonau newydd arfaethedig Blwyddyn 3 (2020/21)
% y gosodiadau sydd i'w cwblhau erbyn y dyddiad yr ymrwymwyd iddo (Safon wedi'i haddasu ar gyfer <i>force majeure</i> )	90% (89%)	95% (94%)

- 1.30 Mewn achosion lle mae angen ymweliad gan beiriannydd i osod y cysylltiad, rydym yn cynnig bod Openreach yn gwneud y canlynol erbyn 2021:
- Bydd Openreach yn cynnig apwyntiad ar gyfer gwaith gosod o fewn deng niwrnod gwaith ar ôl iddo gael gwybod am y diffyg (12 diwrnod ar hyn o bryd);
  - Bydd Openreach yn cynnig apwyntiad o fewn deng niwrnod gwaith 90% o'r amser yn hytrach nag 80% o'r amser fel y mae ar hyn o bryd.

**Tabl 1.3: Safonau ansawdd rhwymol yng nghyswllt y diwrnod cyntaf sydd ar gael ar gyfer apwyntiad i wneud gwaith gosod sy'n galw am ymweliad gan beiriannydd (WLR, MPF a GEA-FTTC)**

	Safon gyfredol	Safonau newydd arfaethedig Blwyddyn 3 (2020/21)
Nifer y dyddiau gwaith sy'n cael ei gynnig ar gyfer apwyntiadau gwaith gosod	12	10
Pa mor aml y dylid cynnig dyddiad wedi'i reoleiddio ar gyfer gwneud gwaith gosod (Safon wedi'i haddasu ar gyfer <i>force majeure</i> )	80% (79%)	90% (89%)

- 1.31 Fel yng nghyswllt y safonau trwsio, bydd cydymffurfiad â'r safonau gosod uchod yn cael ei asesu drwy fesur perfformiad cyfun llinellau band eang a llais cyfanwerthol.
- 1.32 Rydym hefyd wedi ystyried llwybr disgyn priodol i Openreach er mwyn iddo gyrraedd y safonau Ansawdd Gwasanaeth ar gyfer gwaith gosod (gweler Adran 6).

### **Y gofynion o ran tryloywder**

- 1.33 Rydym hefyd yn cynnig bod yn rhaid i Openreach barhau i ddarparu gwybodaeth i Ofcom ynghylch sut y mae wedi perfformio yn erbyn y safonau hyn. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl - er enghraifft, beth oedd wedi achosi'r methiant - yn yr achosion hynny lle mae wedi methu cyrraedd y safon a fyynnir.
- 1.34 Hefyd, bydd yn rhaid i Openreach gyhoeddi gwybodaeth glir, ystyrlon a thryloyw ynghylch faint o amser y mae'n ei gymryd i gywiro diffygion a gosod llinellau newydd, gan ei gwneud yn bosib i ddefnyddwyr ddilyn ei berfformiad.
- 1.35 Rydym yn bwriadu addasu ein gofynion o ran dangosyddion perfformiad allweddol drwy ychwanegu rhai, dileu eraill a symleiddio rhai eraill.

### **Cytundebau Lefel Gwasanaeth (SLA) a Gwarantau Lefel Gwasanaeth (SLG)**

- 1.36 Ar hyn o bryd, os bydd Openreach yn methu cywiro diffygion yn unol â'i gytundeb lefel gwasanaeth o un neu ddau ddiwrnod gwaith, mae angen iddo dalu iawndal bob dydd i ddarparwyr gwasanaethau telegyfathrebu masnachol hyd uchafswm o 60 diwrnod gwaith. Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i hadolygu yn dangos bod nifer perthnasol o ddiffygion yn parhau i fod heb eu cywiro ar ôl y cyfnod hwn. Er mwyn sicrhau bod y taliadau gwarantu lefel gwasanaeth hyn yn parhau i fod yn effeithiol, rydym yn cynnig na ddylid gosod cap ar y cyfnodau y mae iawndal sefydlog yn daladwy. Ar sail debyg, rydym yn bwriadu dileu'r terfyn ar gyfer SLG gosod. Mae'r rhain yn codi pan mae Openreach yn methu gosod gwasanaeth ar y dyddiad y mae wedi addo.
- 1.37 Dylai Swyddfa'r Dyfarnwr Telathrebu barhau i oruchwylio proses y diwydiant ar gyfer trafod telerau newydd neu addasiadau i'r gwarantau lefel gwasanaeth a'r cytundebau lefel gwasanaeth sy'n bodoli eisoes. Os oes angen i ddarparwyr masnachol dalu iawndal awtomatig i gwsmeriaid, rydym hefyd yn disgwyl iddynt ddefnyddio'r broses hon i drafod y trefniadau mewn achosion y mae Openreach yn gyfrifol am y methiant.

### **Ymgynghori a'r camau nesaf**

- 1.38 Rydym yn gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ar y cynigion yn y ddogfen hon. Bydd yr ymgynghoriad yn para am ddeg wythnos a'r dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 9 Mehefin 2017 Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion am sut i ymateb.
- 1.39 Ein nod yw cyhoeddi ein casgliadau yn gynnar yn 2018.